# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 26 Chwefror 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 263(v3)

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiwn Amserol 1

(10 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru:

**Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyhoeddiad gan KASAI y bydd yn cau ei ffatri ym Merthyr Tudful yn 2021?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ffyrdd

(60 munud)

**NDM7274** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd ffyrdd fel rhydwelïau economaidd hanfodol sy'n hyrwyddo ffyniant.

2. Yn cydnabod yr effaith economaidd ac amgylcheddol andwyol sy'n deillio o gysylltedd gwael a thagfeydd ffyrdd.

3. Yn gresynu bod y Prif Weinidog wedi gwneud y penderfyniad unochrog i beidio â bwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4 er gwaethaf y gefnogaeth a gynigir gan Lywodraeth y DU.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddarparu ffordd liniaru'r M4 cyn gynted â phosibl;

b) datblygu cynigion ar gyfer gwaith i uwchraddio cefnffordd yr A55 yn sylweddol a deuoli'r A40 i Abergwaun;

c) ymgysylltu â Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen â chyflenwi ffordd osgoi Pant/Llanymynech.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 -** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu’r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd a’r consensws rhwng y pleidiau dros leihau allyriadau i ddim, gan gynnwys trwy ddatgarboneiddio ffyrdd a rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus Cymru a sicrhau newid moddol.

2. Yn cydnabod cyd-ddibyniaeth y seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd a phwysigrwydd gwasanaeth rheilffyrdd £5bn Llywodraeth Cymru, ei chynllun datreoleiddio bysiau a’i buddsoddiad mwyaf erioed mewn teithio llesol o ran darparu rhwydwaith

trafnidiaeth aml-foddol a charbon isel a fydd yn chwarae rhan i liniaru'r tagfeydd ar y ffyrdd.

3. Yn gresynu bod diffyg ariannu o £1bn gan Lywodraeth y DU yn y seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru a'i methiant i drydaneiddio prif leiniau'r Gogledd a'r De wedi gwaethygu'r tagfeydd ar y ffyrdd, gan arwain at ragor o draffig ar ein cefnffyrdd.

4. Yn gresynu hefyd fod y degawd o gynni gan Lywodraeth y DU wedi cael effaith uniongyrchol ar waith cynnal rhwydwaith ffyrdd y DU.

5. Yn galw ar Lywodraeth y DU i:

a) wneud ymrwymiad tebyg i'r hwnnw gan Lywodraeth Cymru i ariannu pecyn cynhwysfawr o brosiectau ffyrdd a thrafnidiaeth ar y ffin i wella'r priffyrdd strategol i Gymru gan gynnwys Coridor Brychdyn o gwmpas Caer; yr A5 trwy Amwythig i Gymru ac yn y Pant/Llanymynech;

b) helpu i liniaru'r tagfeydd ar y rhwydwaith ffyrdd trwy addo £1bn i drydaneiddio'r brif lein o Crewe i Gaergybi, buddsoddi i uwchraddio'r lein o Wrecsam i orsaf Lime Street yn Lerpwl a thrydaneiddio prif lein y De yn ei chyfanrwydd.

6. Yn nodi penderfyniad a datganiad llafar y Prif Weinidog ddydd Mawrth 4 Mehefin 2019 ynghylch prosiect coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd a'r gwaith arwyddocaol sy'n cael ei wneud gan Gomisiwn Trafnidiaeth y De-ddwyrain i ddatblygu atebion cynaliadwy ac effeithiol i broblem tagfeydd yng Nghasnewydd ac yng ngweddill y rhanbarth.

7. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau tagfeydd traffig ar y ffyrdd, gan gynnwys y pecyn digynsail o £1bn i wella seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth y Gogledd, gan gynnwys y gwaith uwchraddio mawr ar yr A55 a'r A483, cynlluniau teithio llesol a Metro'r Gogledd.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3, 4, 5, 6 a 7 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus werdd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a lleddfu tagfeydd ar y ffyrdd.

**Gwelliant 3 - Sian Gwenllian (Arfon)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn cadarnhau'r egwyddor y dylai Llywodraeth Cymru fod yn atebol i etholwyr Cymru a'r Senedd hon o ran blaenoriaethau seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

**Gwelliant 4 – Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gwrthod unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i benderfynu ar flaenoriaethau gwariant a seilwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus y Senedd hon ar ei rhan.

**Gwelliant 5 – Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Geidwadol y DU a Llywodraeth Lafur Cymru i gyflawni pecyn o fuddsoddiad seilwaith yn y rhwydwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer Cymru gyfan.

**Gwelliant 6 – Sian Gwenllian (Arfon)**

Ym mhwynt 4, dileu is-bwynt (a) a rhoi yn ei le:

'sicrhau datblygiad cyflym gweledigaeth hirdymor ar gyfer rhwydwaith ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus integredig gwyrdd a chynaliadwy ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r trafferthion tagfeydd o amgylch Casnewydd.'

**Gwelliant 7 – Sian Gwenllian (Arfon)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'gwella cysylltedd trafnidiaeth rhwng gogledd a de Cymru.'

## 6 Dadl Plaid Cymru – Datgarboneiddio

(30 munud)

**NDM7277 Sian Gwenllian (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r angen i leihau ein hôl troed carbon ac yn nodi potensial hydrogen fel un ffurf i'n helpu i ddatgarboneiddio.

2. Yn croesawu sefydlu Cymdeithas Masnach Hydrogen Cymru.

3. Yn nodi fod gan Gymru, gyda'i hadnoddau naturiol helaeth, gyfle i ymuno â'r arloeswyr trwy symud y defnydd o hydrogen ymlaen yn gyflym er mwyn cael manteision amgylcheddol, iechyd ac economaidd.

4. Yn cydnabod yr astudiaeth sydd eisoes yn cael ei gynnal i ddefnyddio Ynys Môn fel ardal peilot ar gyfer cynlluniau hydrogen, yn ogystal a chynlluniau ar y gweill mewn sawl ardal arall o Gymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio strategaeth Gymreig ar hydrogen.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi buddsoddiad Llywodraeth y DU yn y sector ynni hydrogen, gan gynnwys buddsoddiad diweddar o £28 miliwn i brosiectau cynhyrchu hydrogen carbon isel ledled y DU fel rhan o'r Rhaglen Cyflenwi Hydrogen.

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth di-allyriadau, fel trafnidiaeth gyhoeddus wedi'i phweru gan hydrogen, a gyflwynwyd mewn rhannau eraill o'r DU, fel rhan o strategaeth ehangach i fynd i'r afael â llygredd aer ac allyriadau carbon.

**Gwelliant 3** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu'n adeiladol â Llywodraeth y DU i ddatblygu sector ynni hydrogen Cymru, a gweithio gyda phrifysgolion a busnesau o fewn y sector i sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran y dechnoleg newydd hon.

## 7 Dadl Plaid Cymru – Tywydd garw a difrod stormydd

(30 munud)

**NDM7278** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r difrod a'r dinistr a achoswyd i gymunedau ledled Cymru o ganlyniad i Storm Ciara a Storm Dennis.

2. Yn talu teyrnged i ymdrechion arwrol gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddolwyr cymunedol wrth ymateb i effeithiau tywydd garw a difrod stormydd yn ystod yr wythnosau diwethaf.

3. Yn cydnabod y bydd newid yn yr hinsawdd yn gwneud digwyddiadau tywydd garw, gan gynnwys achosion o lifogydd difrifol, yn fwy tebygol yn y dyfodol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cychwyn ymchwiliad annibynnol llawn i achosion llifogydd diweddar, yn ogystal â chynnal adolygiad o ddigonolrwydd ei chynlluniau atal tywydd niweidiol yn gyffredinol;

b) sicrhau bod cefnogaeth ychwanegol ar gael i'r rhai sy'n profi trawma seicolegol o ganlyniad i'r dinistr diweddar, yn enwedig plant;

c) sicrhau bod y gronfa galedi ar gyfer yr unigolion hynny y mae tywydd garw a difrod storm yn effeithio arnynt yn sicrhau cydraddoldeb i fusnesau a pherchnogion tai, yn enwedig y rhai heb yswiriant;

d) esbonio statws y cymorth grant sydd ar gael ar gyfer adfer tir;

e) archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno cynllun yswiriant cymdeithasol cost isel gyda'r nod o sicrhau yswiriant fforddiadwy ar gyfer eiddo bobman yng Nghymru;

f) gofyn am asesiad cynhwysfawr gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru o'r mesurau y byddai eu hangen i leihau'r risg flynyddol o lifogydd yng Nghymru i 1 y cant, 0.5 y cant a 0.1 y cant ac i gynyddu gwariant i'r perwyl hwn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – [Darren Millar (Gorllewin Clwyd)]()**

Ym mhwynt 2, ar ôl 'arwrol' mewnosoder 'y gwasanaethau brys, staff asiantaeth,'.

**Gwelliant 2 – [Rebecca Evans (Gwyr)]()**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod yr ymchwiliadau sy’n cael eu cynnal i achos llifogydd yn cael eu cyhoeddi a bod y cymunedau yr effeithiwyd arnynt, y Senedd a’r awdurdodau annibynnol, gan gynnwys y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn cael craffu arnynt;

b) darparu cymorth ariannol ac ymarferol ychwanegol i’r unigolion a’r busnesau yr effeithiodd y llifogydd arnynt;

c) darparu arian ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu gwneud gwaith trwsio brys ar amddiffynfeydd rhag llifogydd a seilwaith hanfodol arall;

d) cyhoeddi polisi cynllunio newydd a mapiau llifogydd eleni i wneud safiad cryfach ar ddatblygu ar y gorlifdir ac i adlewyrchu’r risgiau cynyddol a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd;

e) cyhoeddi Asesiad Perygl Llifogydd newydd i Gymru ochr yn ochr â Strategaeth Llifogydd ac Arfordirol newydd eleni a’i ddefnyddio i flaenoriaethu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd sy’n diogelu’r cymunedau sy’n wynebu’r risg mwyaf o lifogydd o bob ffynhonnell – arfordirol, afonydd a dŵr arwyneb;

f) cynyddu’r cymorth ariannol ac ymarferol i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu datblygu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd newydd yn gynt.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ym mhwynt 4, cynnwys is-bwynt newydd ar ôl is-bwynt (c) ac ailrifo yn unol â hynny:

'sefydlu cynllun rhyddhad ardrethi i helpu busnesau i wella yn dilyn llifogydd;

**Gwelliant 4 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cymunedau a busnesau lleol yn cael cymorth parhaus y tu hwnt i'r gwaith glanhau cychwynnol i'w helpu i wella yn y tymor hir, ac i deall y camau sydd angen eu cymryd i liniaru llifogydd yn y dyfodol.

**Gwelliant 5 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i ddiweddaru canllawiau cynllunio drwy sefydlu lleiniau na ddylid datblygu arnynt mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd, megis gorlifdiroedd naturiol, i rwystro datblygiadau amhriodol a lleihau'r perygl o ddifrod i gartrefi a busnesau.

## 8 Dadl Plaid Brexit – Datganoli

(60 munud)

**NDM7276** Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn gresynu wrth fethiant datganoli yng Nghymru hyd yma.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu bod datganoli yng Nghymru wedi cael ei lesteirio hyd yma gan y methiant i ddatganoli rhagor o bwerau.

2. Yn galw am gryfhau datganoli yng Nghymru drwy:

a) datganoli'r doll teithwyr awyr; a

b) datganoli deddfwriaeth y system gyfiawnder yn llawn a chadw sefydliadau cyfiawnder annibynnol Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 –** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu’r cyfraniadau cyfunol sydd wedi’u gwneud gan bleidiau gwleidyddol ar bob ochr a chan y gymdeithas sifig yn ehangach i sicrhau mai datganoli yw ewyllys sefydlog pobl Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliannau 3 a 4 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 3 - Sian Gwenllian (Arfon)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth hanes anobeithiol Llywodraeth Lafur Cymru sydd wedi bod mewn grym yn barhaus ers dechrau datganoli.

2. Yn credu bod Llywodraethau olynol y DU - o dan Lafur a'r Ceidwadwyr - wedi llywyddu dros dlodi sy'n pontio'r cenedlaethau a thanfuddsoddi yng Nghymru.

3. Yn credu y dylai penderfyniadau am ddyfodol Cymru gael eu gwneud gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio yma.

4. Yn credu mai meddu ar ysgogiadau economaidd a chyllidol gwlad annibynnol yw'r allwedd i ffyniant Cymru yn y dyfodol.

5. Yn cytuno mai cynrychiolwyr etholedig pobl Cymru ddylai fod â'r grym i alw refferendwm ar annibyniaeth yn y dyfodol, heb unrhyw feto gan San Steffan.

*[Os derbynnir gwelliant 3, caiff gwelliant 4 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu 'datganoli yng Nghymru' a rhoi yn ei le 'Llywodraethau olynol Cymru'.

**Gwelliant 5 - Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid diddymu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwelliant 6 - Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod dewisiadau ymarferol eraill yn lle datganoli, yn absenoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynnwys democrateiddio'r GIG a rhoi mwy o bwerau i riant-lywodraethwyr i benderfynu ar bolisi addysg ysgolion.

## 9 Cwestiwn Amserol 2

(10 munud)

Gofyn i’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Yng ngoleuni'r cynnydd diweddar yn y coronafeirws ar draws Ewrop, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf i bobl yng Nghymru?

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7275** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Yr economi ar ôl Brexit.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2020

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19/02/2020 i'w hateb ar 26/02/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

1 OAQ55126

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus yng ngorllewin Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OAQ55118

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cau ffyrdd a rheilffyrdd yn ddiweddar yn Nyffryn Conwy?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

3 OAQ55113

**(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch penderfyniad y DVSA i gau'r ganolfan prawf gyrru yng Nghaernarfon?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

4 OAQ55129

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r awdurdodau perthnasol ynghylch cynyddu capasiti trenau ar brif reilffordd de Cymru?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

5 OAQ55127

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i arallgyfeirio economi Gorllewin De Cymru?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

6 OAQ55128

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ysgogi'r economi yng Ngogledd Cymru?



**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

7 OAQ55112

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu ffyniant economaidd ledled Cymru?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

8 OAQ55125

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau bysiau yng Nghanol De Cymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

9 OAQ55120

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bydd strategaeth twristiaeth Llywodraeth Cymru yn hybu economi Gorllewin De Cymru?

**David Rees** *Aberafan*

10 OAQ55132

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yn Aberafan ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

11 OAQ55115

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gadernid y seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

12 OAQ55110

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru yng nghanolbarth Cymru?

# Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

1 OAQ55108

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sydd ar y gweill a ddisgwylir o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

2 OAQ55116

**(e)**

Pa asesiad diweddar y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith ymadawiad y DU â'r UE ar drefniadau masnach a thollau yng Nghymru?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

3 OAQ55133

**(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o safbwynt negodi'r UE yn ystod y trafodaethau presennol ar y gytundeb fasnach?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

4 OAQ55135

**(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i awdurdodau lleol i gefnogi'r broses o roi cynllun Llywodraeth y DU, Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar waith?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ55131

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch polisi mewnfudo yn y dyfodol ar ôl Brexit?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

6 OAQ55111

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch polisi mewnfudo ar ôl i'r DU ymadael â'r UE?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

7 OAQ55122

**(e)**

Pa gyfleoedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ar gyfer Cymru o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ55136

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau diweddaraf y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch ymadawiad y DU â'r UE?